# Cymdeithas Eryri
# Snowdonia Society

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail,
Caernarfon, Gwynedd LL55 3NR

01286 685 498

info@snowdonia-society.org.uk

www.snowdonia-society.org.uk
www.cymdeithas-eryri.org.uk







Elusen gofrestredig rhif/Registered Charity no: 1155401

# Caru Eryri: Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru 2022

**CRYNODEB O'R ADRODDIAD**

Rhaglen wirfoddoli yw Caru Eryri a gyflwynir mewn partneriaeth â'r canlynol:

- Cymdeithas Eryri Snowdonia Society
- Y Bartneriaeth Awyr Agored
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae timau gwirfoddol Caru Eryri yn patrolio'r lleoliadau hynny lle mae pwysau ac effeithiau ymwelwyr ar eu huchaf. Mae arweinwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr hyfforddedig yn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr, yn clirio sbwriel ac yn cynnal llwybrau troed. Mae eu gwaith yn adnodd pwysig i reolaeth y safle, yn annibynnol ac yn ategol at waith gwasanaethau ffurfiol y Warden.

Mae cynllun Caru Eryri wedi cyflawni swm sylweddol ar lawr Eryri, ac mae'r gwaith hwn yn amlwg iawn. Mae'r rhaglen yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni gan fudiadau trydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth agos â chyrff cyhoeddus. Gellir edrych ar ei gyflawniad o ran ei allbynnau ymarferol a'r profiad y mae'n ei roi i wirfoddolwyr. Mae Rhan 1 yr adroddiad hwn yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, gellir hefyd gwerthuso'r gwaith o ran sut mae mudiadau'n ymhél â'i gilydd ac ar draws ffiniau eu sectorau, wrth ymateb i heriau ac anghenion sylweddol. Rydym yn ystyried sut mae'r partneriaid wedi:

- gweithio gyda'i gilydd o gwmpas nodau cyffredin clir.
- canfod ffyrdd newydd o weithio a datblygu ffyrdd a oedd eisoes yn bodoli.
- dangos potensial systemau a rennir a chronfeydd o adnoddau.

Wrth i ni addasu i'r realiti newydd ar ôl cynnwrf y pandemig, disgwyliwn i'r pwysau barhau mewn tirweddau dynodedig ac yn wir, ehangu yn y lleoedd y mae pobl eisiau ymweld â nhw. Mae'n bur debyg y byddwn ni'n gweld newidiadau sylweddol yn y cydberthnasau rhwng cymunedau, yr amgylchedd a thwristiaeth yng Nghymru. Os felly, bydd hyn yn effeithio ar beth a sut rydym yn disgwyl i'n tirweddau dynodedig gyflawni. Gyda heriau'r aruthrol rydym eisoes yn eu hwynebu o ran adfer natur a'r newid yn yr hinsawdd, mae hyn yn mynnu bod pob un ohonom ni'n agored i newid sut rydym yn gweithio gyda'n

gilydd. Yn ei dro, bydd hyn yn golygu bod angen i gyrff trydydd sector fod yn agored i feddwl am ein rolau a'n blaenoriaethau ein hunain.

Ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, rydym eisoes wedi gweld y natur agored hon ar waith, fel rhan o'r ymgysylltiad pellgyrhaeddol sy'n dechrau dod i'r amlwg wrth i'r ardal baratoi'r ffordd ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol newydd. Hwn fydd yr un gyntaf i gael ei ddynodi gan Gymru i Gymru, o fewn fframwaith deddfwriaethol a diwylliannol gwahanol iawn i'r un a gyflwynwyd gyda'r Parciau Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru mwy na 70 mlynedd yn ôl. Gall y trydydd sector gyfrannu llawer at y broses ddatblygu hon, os ydym yn rhan o'r sgwrs, ac os ydym yn barod i fod yn rhan o'r gweithredu.

Wrth rannu'r dysgu fel rhan o'r prosiect hwn, rydym wedi canfod lefel anhygoel o gydlyniant rhwng sectorau o ran y cyfleoedd sydd bellach yn amlwg yng Nghymru. Nid ydym yn cymryd y buddion amlwg o allu gweithio gyda llywodraeth ddifrifol a sefydlog gydag agenda amgylcheddol blaengar yn ganiataol.

I fudiadau â hanes hir o waith eirioli, mae hyn yn codi cwestiwn allweddol ac, o bosibl, annisgwyl: sut gallwn ni gefnogi'r llywodraeth yn effeithiol, pan rydym bellach yn cyd-fynd â hi mewn nifer o ffyrdd? Nid cwestiwn bach mo hwn; i rai ohonom ni, dyma beth sy'n gyrru ein dull gweithio ymarferol ar y tir gyda gwirfoddolwyr.

Mae ein cydweithwyr trydydd sector ar dirweddau dynodedig yn gwneud swm sylweddol o waith gwerthfawr gyda gwirfoddolwyr. Mae llawer o'r gwaith hwn yn ymarferol, yn mynd i'r afael â'r gwaith gofal a chynnal a chadw adnabyddus sydd angen ei wneud o hyd. Gyda'i gilydd, mae hwn yn adnodd pwysig i'r cyrff cyhoeddus cyfrifol amrywiol. Caiff ychydig - os nad llawer - o hyn ei wneud mewn partneriaeth ag eraill - Awdurdodau Parc Cenedlaethol, partneriaethau AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati.

Fodd bynnag, mae'r gwaith o gofnodi'r allbynnau gwirfoddoli hyn yn dameidiog a heb eu cydlynu; byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwella hyn. Nid yw llawer o'r gwaith hyn yn alinio â strategaethau, strwythurau na chynlluniau gwaith ac os ydyw, nid yw'n alinio rhyw lawer. Mae'n siŵr bod hyn yn caniatáu ar gyfer dulliau gweithredu mwy amrywiol, ond byddem yn disgwyl i gyrhaeddiad ac effeithiolrwydd ein gwaith fod yn uwch os oedden ni'n alinio'n agosach â

rhywbeth sy'n ymdebygu dull strategol. Mae hyn yn her i'r trydydd sector o ran sut rydym yn gweld ein rôl a'n gwaith.

Yn ystod y gynhadledd, Cenedl Fach, Tirluniau Mawr, lluniwyd datganiad ar y cyd https://www.cnp.org.uk/news/national-parks-movement-speaks-one-voice (Saesneg yn unig). Wrth ddarllen hwn yn ofalus, gwelir ei fod yn amlygu'r anhawster sy'n wynebu unrhyw un sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr, pan fo'r sylfeini a'r deddfwrfeydd deddfwriaethol eu hunain mor wahanol. Rydym yn ffodus bod yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, fel corff ymbarél, wedi dod yn dra hyddysg ac yn ymrwymedig i weithio yng Nghymru mewn modd sy'n adlewyrchu ac yn parchu'r gwahaniaethau hynny'n briodol.

Rydym hefyd yn ffodus o gael y Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru (AWDL) sy'n cynnig llais Cymreig nodweddiadol i ymateb i faterion sy'n ymwneud â thirweddau dynodedig o safbwynt y trydydd sector. Nid oes gan AWDL na'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol y capasiti na'r cylch gwaith i ddatblygu gwaith ymarferol na phartneriaethau ar y tir fel y mae Caru Eryri yn ei wneud. Ac eto i hyd, dyma'r math o waith sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i bobl yng Nghymru gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol, a gwneud eu rhan i ofalu am adnoddau naturiol gwerthfawr y genedl. Ym mhartneriaeth Caru Eryri, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i adeiladu'r agenda hon.

Cymdeithas Eryri yw'r unig gorff trydydd sector yng Nghymru sy'n ymroddedig i dirweddau dynodedig a chyda capasiti staff sylweddol. Teimlwn fod ein cyfraniad ni yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydgysylltiedig i bobl ifanc. Rydym eisoes wedi gweld sut mae pobl ifanc – wrth gael eu cynnwys, eu hysbrydoli, eu hyfforddi ac yn cael eu hymddiried ynddynt i arwain - yn adnodd pwerus ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth.

Rydym ni'n credu bod rôl gwirfoddolwyr yn allweddol wrth i Gymru ddatblygu:

- mentrau fel y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, sy'n helpu mwy o bobl i gyfrannu mewn modd cydgysylltiedig at eu hiechyd a'u lles eu hunain ac anghenion cymdeithas, adferiad natur a gweithredu ar yr hinsawdd
- modelau twristiaeth mwy cyfrifol a pharchus
- cydgysylltiadau newydd rhwng pobl a lleoedd sy'n adlewyrchu dulliau gweithredu a fframweithiau nodweddiadol Cymru.

Os hoffech dderbyn copi o'r adroddiad llawn, cysylltwch â Mary-Kate Jones, Rheolwr Rhaglen – Cymdeithas Eryri mary-kate@snowdonia-society.org.uk.